

---

**Polisi S4C ar Ddarllediadau Pleidiau Gwleidyddol (PPB),  
Darllediadau Etholiadol (PEB) a Darllediadau Refferendwm  
Rhagfyr 2013**

---

Mae gan Awdurdod S4C ddyletswydd o dan Atodlen 12 paragraff 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003 i gynnwys darllediadau pleidiau gwleidyddol a darllediadau refferendwm ym mhob gwasanaeth cyhoeddus dynodedig, sef S4C.

Mae gan Awdurdod S4C ddyletswydd i baratoi polisi mewn perthynas â darllediadau o'r fath sy'n nodi'r modd y mae'r Awdurdod yn bwriadu cyflawni'r ddyletswydd hon.

Wrth ffurfio'r polisi hwn, mae Awdurdod S4C wedi nodi'r penderfyniadau a wnaed yn y Grŵp Cyswllt Darlledwyr (sy'n cynnwys cynrychiolaeth o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y D.U. – BBC, ITV, Channel 4, Five a S4C), barnau'r Comisiwn Etholiadol a'r rheolau a wnaed gan Ofcom o dan adran 333 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

Mae'r ddogfen hon yn nodi meini prawf cymhwysedd a dyraniad arfaethedig S4C ar gyfer darllediadau. Gall S4C newid neu ychwanegu at y dyraniad yma mewn perthynas ag unrhyw etholiad, neu refferendwm penodol. Byddwn yn cyhoeddi unrhyw amodau diwygiedig neu ychwanegol ar ei gwefan ([www.s4c.co.uk](http://www.s4c.co.uk)).

## 1. Dyraniad

- 1.1 Byddwn yn cynnig un darllediad yn yr hydref, gaeaf a'r gwanwyn, i bob prif blaid wleidyddol ddynodedig. Ni fydd PPBs yn cael eu darlledu yn ystod cyfnod etholiad. Nodir y meini prawf ar gyfer PEBs ar wahân, isod.
- 1.2 Byddwn yn cynnig cyfres (dau neu fwy o ddarllediadau) cyn refferendwm i bob sefydliad refferendwm dynodedig. Bydd y dyraniad yma yn gyfartal i'r ddwy ochr. Lle mae PEB yn cael ei ddarlledu yn ystod cyfnod refferendwm, ni ddylai'r PEB hyrwyddo unrhyw ganlyniad penodol.
- 1.3 Ar gyfer Etholiad Cyffredinol bydd pleidiau sydd yn sefyll ymgeiswyr yn o leiaf un o bob chwe etholaeth yng Nghymru (sef sefyll yn 7 etholaeth) yn gymwys ar gyfer o leiaf un PEB yng Nghymru. Ar gyfer Etholiad Cynulliad bydd pleidiau sydd yn sefyll ymgeiswyr yn o leiaf un o bob chwe etholaeth yng Nghymru neu yn sefyll o leiaf 4 ymgeisydd ym mhob un o'r 5 rhestr rhanbarthol yn gymwys ar gyfer o leiaf un PEB yng Nghymru. Ar gyfer Etholiadau Lleol bydd pleidiau sy'n sefyll ymgeiswyr yn o leiaf un o bob chwe etholaeth yng Nghymru yn gymwys ar gyfer o leiaf un PEB yng Nghymru. Fel arfer byddwn yn cynnig cyfres o ddarllediadau i'r prif bleidiau gwleidyddol dynodedig cyn pob etholiad.
- 1.4 Gall pleidiau gwleidyddol cofrestredig sydd yn cyrraedd y maen brawf sylfaenol yma fod yn gymwys ar gyfer PEBs ychwanegol os yw S4C yn ystyried y gallant ddangos lefelau arwyddocaol o gefnogaeth etholiadol yn y gorffennol a/neu ar hyn o bryd. Wrth ddynodi nifer y PEBs a gynigir i'r prif bleidiau dynodedig a phleidiau cofrestredig eraill, byddwn yn ystyried amgylchiadau'r etholiad penodol (gan gynnwys lleoliad yr etholiad) ynghyd â chefnogaeth etholiadol bresennol neu hanesyddol y blaid yna yng Nghymru.
- 1.5 Ar gyfer Etholiad Ewrop, bydd pleidiau gwleidyddol sydd yn sefyll rhestr gyflawn neu restr sylweddol<sup>1</sup> gyflawn o ymgeiswyr yng Nghymru yn gymwys ar gyfer o leiaf un PEB yng Nghymru.
- 1.6 Gall pleidiau cofrestredig fod yn gymwys i dderbyn mwy nag un darllediad os ydynt yn gallu dangos lefelau arwyddocaol o gefnogaeth etholiadol yn y gorffennol a/neu ar hyn o bryd. Wrth benderfynu ar y nifer y PEBs a gynigir i bleidiau gwleidyddol dynodedig bydd S4C yn ystyried amgylchiadau'r etholiad penodol yna (gan gynnwys yn lle y cynhelir e) ynghyd â chefnogaeth etholiadol bresennol neu hanesyddol y blaid yna yng Nghymru.
- 1.7 Ar gyfer etholiadau, gall pleidiau cofrestredig ar wahân i'r prif bleidiau gwleidyddol dynodedig fod yn gymwys ar gyfer cyfres o ddarllediadau, ynghyd a'u darlledu yn ystod yr oriau brig, os ydy'r dystiolaeth o lefelau arwyddocaol o gefnogaeth etholiadol mewn etholiad penodol (neu yng Nghymru) yn golygu y byddai'n gymwys i wneud hynny; mae hyn yn cydnabod y gall fod gan bleidiau gwahanol gryfderau gwahanol mewn etholiadau gwahanol.
- 1.8 Bydd PPBs, PEBs a Darllediadau Refferendwm yn cael eu darlledu yn y Gymraeg yn unig ar S4C yn ystod yr oriau darlledu brig neu mor agos ag sy'n ymarferol bosib i'r oriau darlledu brig.

<sup>1</sup> Defnyddir 'sylweddol' er mwyn mynd i'r afael â sefyllfa lle mae plaid wedi bwriadu sefyll rhestr gyflawn o ymgeiswyr ond sydd yn y pen draw yn methu gwneud hynny – er engrhaifft, oherwydd y bu'n rhaid i ymgeisydd dynnu yn ôl

## 2. Darllediadau Cymraeg

2.1 Bydd darllediad yn y Gymraeg yn golygu darllediad sydd wedi'i gynhyrchu yn y Gymraeg yn bennaf ac sy'n addas i'w ddarlledu yn ystod oriau darlledu brig S4C. Os yw'r darllediad yn cynnwys defnydd helaeth o drosleisio a/neu isdeitlo, neu os nad yw'n cydymffurfio â chanllawiau iaith S4C, mae S4C yn cadw'r hawl i beidio â darlledu ond bydd yn trafod gyda'r blaid o flaen llaw.

2.2 Wrth gynhyrchu darllediadau rhaid i bleidiau fod yn ystyriol o ganllawiau iaith, cyfleu a chynhyrchu S4C; gellir eu gweld ar ein gwefan:

<http://www.s4c.co.uk/production/downloads/guidelines/canllaw-iaith.pdf>

[http://www.s4c.co.uk/abouts4c/corporate/pdf/delivery\\_ppb\\_2010.pdf](http://www.s4c.co.uk/abouts4c/corporate/pdf/delivery_ppb_2010.pdf)

[http://www.s4c.co.uk/abouts4c/corporate/pdf/s4c\\_ppb\\_production\\_guidelines\\_2010.pdf](http://www.s4c.co.uk/abouts4c/corporate/pdf/s4c_ppb_production_guidelines_2010.pdf)

## 3. Amserlen arfaethedig

3.1 S4C fydd yn penderfynu ar y drefn ddarlledu gan gymryd i ystyriaeth amgylchiadau'r etholiad penodol yna ynghyd â chefnogaeth etholiadol bresennol neu hanesyddol y blaid.

3.2 Bydd gan Awdurdod S4C yr hawl i adolygu'r polisi hwn.

## 4. Cwynion am ddyraniad darllediadau

4.1 Ystyrir cwynion yn erbyn dyraniad S4C o ddarllediadau gwleidyddol gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig yn unig. Bydd modd iddynt gwyno yn unol â Threfn Cwynion S4C sydd i'w gael ar ein gwefan:  
[http://www.s4c.co.uk/c\\_complaint\\_procedure.shtml](http://www.s4c.co.uk/c_complaint_procedure.shtml)